# Rheoli **risg** mewn darpariaeth **chwarae**: datganiad sefyllfa

## Cyflwyniad

Mae'r Play Safety Forum, grŵp o asiantaethau cenedlaethol sydd yn ymwneud â diogelwch chwarae, wedi cynhyrchu *Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae* i gefnogi gwaith y bobl hynny sy'n ymwneud â darpariaeth chwarae o unrhyw fath (er enghraifft ardaloedd chwarae, meysydd chwarae, meysydd chwarae antur, canolfannau chwarae a chynlluniau chwarae gwyliau haf). Mae'r rhain yn cynnwys awdurdodau lleol, mudiadau gwirfoddol, gwneuthurwyr offer chwarae ac asiantaethau arolygu.

Mae'r datganiad yn berthnasol hefyd i leoliadau ac amgylcheddau eraill ble mae plant yn chwarae, megis darpariaeth gofal plant, ysgolion, parciau a mannau agored cyhoeddus. Bydd o ddiddordeb hefyd i bobl sy'n ymwneud â meysydd yswiriant ac ymgyfreitha sy'n berthnasol i ddarpariaeth chwarae. Mae'r datganiad yr un mor berthnasol i blant a phobl ifanc o bob oed o 0 i 18, ac mae'n defnyddio'r term 'plant' i gwmpasu'r ystod oedran gyflawn. Mae'n canolbwyntio ar anafiadau corfforol sy'n digwydd o ganlyniad i ddamweiniau. Fodd bynnag, mae'r agwedd gyffredinol, hynny yw y dylid taro cydbwysedd rhwng risgiau a buddiannau, yn berthnasol hefyd i asiantaethau sy'n ymdrin â materion eraill fel diogelwch personol plant.

Daw'r datganiad ar ddwy ffurf: crynodeb a datganiad llawn. Mae'r crynodeb yn anelu i ddatgan pwyntiau allweddol y datganiad llawn mewn ffurf fwy hygyrch, ar gyfer cynulleidfa annhechnegol.

## Cyd-destun

Mae pryder cynyddol ynghylch sut y delir gyda diogelwch mewn darpariaeth chwarae plant. Mae ofn cael eu dwyn i gyfraith yn arwain llawer o ddarparwyr chwarae i ganolbwyntio ar leihau'r perygl o gael anaf ar draul amcanion eraill, pwysicach. Effaith hyn yw atal plant rhag mwynhau ystod iach o gyfleoedd chwarae, gan gyfyngu ar eu pleser ac achosi canlyniadau niweidiol posibl i'w datblygiad.

Mae'r agwedd hon yn anwybyddu tystiolaeth glir bod chwarae mewn darpariaeth chwarae'n weithgaredd gyda risg cymharol isel i blant. O'r oddeutu dwy filiwn o achosion o ddamweiniau plentyndod gaiff eu trin mewn ysbytai bob blwyddyn, mae llai na 2 y cant yn ymwneud ag offer meysydd chwarae. Mae cymryd rhan mewn chwaraeon fel pêl-droed, gaiff ei gydnabod yn gyffredinol fel rhywbeth sy'n 'dda' ar gyfer datblygiad plentyn, yn cynnwys mwy o risg o anafiadau nac ymweld â maes chwarae. Mae marwolaethau ar feysydd chwarae'n brin iawn – tua un bob tair neu bedair blynedd ar gyfartaledd. Mae hyn yn cymharu, er enghraifft, gyda dros 50 o farwolaethau plant ar ffyrdd y flwyddyn (Ball, 2002; Yr Adran Drafnidiaeth 2020).

Mewn ymateb i'r sefyllfa hon, ac er mwyn sicrhau bod anghenion a dymuniadau plant yn cael eu cydnabod yn gywir, mae'r Play Safety Forum wedi paratoi'r datganiad hwn.

### DATGANIAD CRYNO

Mae plant angen ac eisiau cymryd risg wrth chwarae. Mae darpariaeth chwarae'n anelu i ymateb i'r anghenion a'r dymuniadau hyn trwy gynnig amgylcheddau heriol, symbylol i blant ar gyfer archwilio a datblygu eu doniau. Trwy wneud hyn, mae darpariaeth chwarae'n anelu i reoli'r lefel risg fel na fydd plant yn wynebu risgiau annerbyniol marwolaeth neu anafiadau difrifol.



# DATGANIAD LLAWN

## Risg derbyniol ac annerbyniol

Mewn unrhyw weithgaredd dynol, ceir elfen o risg. Mae tair ffactor sy'n ganolog i bennu os yw lefel y risg yn dderbyniol neu'n oddefadwy ai peidio:

- tebygolrwydd cael niwed
- difrifoldeb y niwed hwnnw
- buddiannau, gwobrwyon neu ganlyniadau'r gweithgaredd.

Caiff barnau am dderbynioldeb risg eu gwneud ar sail asesiad risg. Nid yw asesu a rheoli risg yn brosesau mecanistig. Maent, yn hanfodol, yn cynnwys llunio barn am dderbynioldeb yn seiliedig ar ddealltwriaeth o'r cydbwysedd rhwng risgiau a buddiannau. Hyd yn oed ble fo risg o farwolaeth neu anaf anablol parhaol, mae'n bosibl y bydd y risg yma'n oddefadwy weithiau. Er enghraifft, mae mynd i badlo yn y môr yn golygu risg anochel o anaf marwol, ond mae'r risg hon yn oddefadwy i'r mwyafrif o bobl oherwydd, dan y mwyafrif o amgylchiadau, mae'r tebygolrwydd o gael anaf yn isel iawn ac mae buddiannau amlwg. Mae ffactorau cymdeithasol a seicolegol yn bwysig hefyd mewn asesu risg. Efallai y bydd risgiau sy'n dderbyniol mewn un gymuned yn annerbyniol mewn cymuned arall, a dylai polisïau gofio ystyried hyn.

Mae bron pob amgylchedd yn cynnwys peryglon neu ffynonellau niwed. Mewn llawer o achosion, gellir cyfiawnhau bodolaeth peryglon, efallai oherwydd eu bod yn amhosibl i'w dileu neu efallai oherwydd y byddai eu dileu yn achosi canlyniadau annymunol neu y byddai'n rhy gostus. Ble y gellir cyfiawnhau bodolaeth perygl, dylai mesurau fod yn eu lle i'w reoli. Mewn amgylchedd a reolir, fel mewn gweithle neu faes chwarae, mae'r gyfraith yn mynnu y dylai'r rheini sy'n gyfrifol ddynodi, a llunio crebwyll deallus am, y peryglon y bydd pobl yn eu hwynebu. Bydd rhaid iddynt gymryd camau i sicrhau bod y risgiau'n cael eu rheoli, cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol, tra'n caniatáu trosglwyddo'r buddiannau posibl.

## Plant a risg

Mae pob plentyn angen ac eisiau cymryd risg er mwyn archwilio ffiniau, mentro i brofiadau newydd a datblygu eu doniau, o oedran ifanc iawn ac o'u profiadau chwarae cynharaf. Fyddai plant fyth yn dysgu cerdded, dringo'r grisiau neu fynd ar feic oni bai eu bod yn cael eu hysgogi'n gryf i ymateb i heriau sy'n cynnwys risg cael anaf. Mae gan blant ag anableddau angen cyfartal, os nad mwy, am gyfleoedd i gymryd risg, gan ei bod yn bosibl eu bod yn cael eu gwrthod y rhyddid dewis y mae eu cyfoedion heb anableddau yn eu mwynhau.

Mae dyletswydd gan bob un sy'n gyfrifol am blant yn chwarae i asesu a rheoli'r lefel risg, fel bod plant yn cael cyfle i ymestyn eu hunain, profi a datblygu eu doniau heb achosi iddynt wynebu risgiau annerbyniol. Mae hyn yn rhan o gyfrifoldeb cymdeithasol ehangach sydd gan oedolion dros blant. Os na fyddwn yn darparu cyfleoedd rheoledig i blant wynebu a rheoli risg, yna efallai na chânt gyfle i ddysgu'r sgiliau hyn. Efallai y byddant hefyd yn fwy tebygol o ddewis chwarae mewn amgylcheddau heb eu rheoli, ble mae'r risgiau'n fwy.

Mae unrhyw anaf yn peri gofid i blant a'r bobl sy'n gofalu amdanynt, ond mae wynebu'r risg o gael anaf, a phrofi gwir fân-anafiadau, yn elfen gyffredinol o blentyndod. Mae gan brofiadau o'r fath rôl gadarnhaol hefyd yn natblygiad plant. Pan fydd plant yn dioddef neu'n gweld anafiadau byddant yn ennill profiad uniongyrchol o ganlyniadau eu gweithredoedd a'u dewisiadau, a thrwy hyn ddealltwriaeth o faint eu doniau a'u cymwyseddau. Fodd bynnag, mae plant yn haeddu cael eu hamddiffyn rhag anafiadau marwol neu anablol parhaol, i raddfa fwy nac oedolion.

Mae gan blant lu o gymwyseddau a doniau corfforol, yn cynnwys gallu cynyddol i asesu a rheoli risg y gellid dadlau bod oedolion yn dueddol o'u bychanu. Fodd bynnag, mae gan blant, yn nodweddiadol, lai o brofiad nag oedolion o asesu'r ystod eang o risgiau a pheryglon y gallent ddod ar eu traws. Felly, mae'n bwysig rhoi amgylcheddau rheoledig priodol iddynt ble gallant ddysgu am risg.

## Darpariaeth chwarae a risg

Mae cymryd risg yn nodwedd hanfodol o ddarpariaeth chwarae, ac o bob amgylchedd ble gall plant dreulio amser yn chwarae'n gyfreithlon. Mae darpariaeth chwarae'n anelu i gynnig cyfleoedd i blant wynebu risgiau derbyniol fel rhan o amgylchedd dysgu symbylol, heriol a rheoledig. Yng ngeiriau cyhoeddiad y sector chwarae, *Best Play*, dylai darpariaeth chwarae anelu i 'reoli'r balans rhwng yr angen i gynnig risg a'r angen i gadw plant yn ddiogel rhag niwed'. Tra gellid defnyddio'r un egwyddorion o reoli diogelwch mewn gweithleoedd yn gyffredinol ac mewn darpariaeth chwarae, mae'r cydbwysedd rhwng diogelwch a buddiannau'n debyg o fod yn wahanol yn y ddau amgylchedd. Mewn darpariaeth chwarae, mae wynebu ambell risg o fudd mewn gwirionedd: mae'n diwallu angen dynol sylfaenol ac mae'n rhoi cyfle i blant ddysgu am wir ganlyniadau cymryd risg.

Felly, mae'n dderbyniol i blant mewn darpariaeth chwarae wynebu risg cael mân-anafiadau fydd yn gwella'n gyflym fel cleisiau, crafiadau neu sigiadau. Ar y llaw arall, ni ddylai darpariaeth chwarae amlygu plant i debygolrwydd sylweddol o gael eu hanablu yn barhaol neu anafiadau sy'n fygythiad i fywyd. Fodd bynnag, mae'n bosibl weithiau y bydd yn anochel bod darpariaeth chwarae'n amlygu plant i'r risg – y risg isel iawn – o anaf difrifol neu farwolaeth, hyd yn oed. Ond fyddai hyn ond yn oddefadwy dan yr amodau canlynol:

- bod y tebygolrwydd yn hynod o isel
- bod y peryglon yn amlwg i'r defnyddwyr
- bod buddiannau amlwg
- y byddai lleihau'r risg ymhellach yn dileu'r buddiannau
- bod dim modd ymarferol, rhesymol i reoli'r risg.

Er enghraifft, mae pwll padlo, hyd yn oed gyda fawr ddim dŵr ynddo, yn peri risg isel iawn ond ddisyfyd o foddi (hyd yn oed gyda goruchwyliaeth rhiant), ond mae hyn, fel arfer, yn oddefadwy. Mae'r tebygolrwydd, fel arfer, yn hynod o isel; mae'r perygl yn gwbl amlwg; mae'r plant yn cael budd o'u mwynhad a thrwy'r profiad dysgu o chwarae mewn dŵr; ac, yn olaf, nid yw lleihau neu reoli'r risg ymhellach yn ymarferol heb ddileu'r buddiannau.

Dylai darparwyr daro cydbwysedd rhwng y risgiau a'r buddiannau. Dylid gwneud hyn ar sail asesiad risg. Yn hanfodol iawn, dylai'r asesiad risg hwn gynnwys cyfaddawdu risg-budd

rhwng diogelwch a nodau eraill, y dylid eu hegluro'n glir ym mholisi'r darparwr. O ystyried awydd plant i gymryd risg, un o'r ffactorau y dylid eu hystyried yw'r tebygolrwydd y bydd plant yn chwilio am risg yn rhywle arall, mewn amgylcheddau sydd heb eu rheoli neu heb eu dylunio ar eu cyfer, os nad yw'r ddarpariaeth chwarae'n ddigon heriol. Ffactor arall yw'r dysg all ddigwydd pan fydd plant yn wynebu, ac yn gorfod dysgu i ddelio gyda, peryglon amgylcheddol. Mae darpariaeth chwarae mewn sefyllfa unigryw i gynnig cyfle i blant ddysgu am risg mewn amgylchedd sydd wedi ei ddylunio at y diben hwnnw a, thrwy hynny, helpu plant i ymbaratoi ar gyfer delio gyda pheryglon tebyg yn y byd ehangach.

## Arfer da

Polisïau eglur, hawdd eu deall, ynghyd â gweithdrefnau sy'n rhoi'r polisïau hyn ar waith, yw'r allwedd i arfer da o ran rheoli risg mewn darpariaeth chwarae. Dylai polisïau ddatgan yn glir yr amcanion cyffredinol. Dylai gweithdrefnau, yn cynnwys asesu risg, ddatgan sut gaiff y polisïau hyn eu rhoi ar waith, gan gynnig arweiniad ond hefyd gydnabod yr angen am grebwyll proffesiynol wrth daro'r cydbwysedd rhwng diogelwch a nodau eraill. Mae'n amlwg bod crebwyll o'r fath yn amlddisgyblaethol ei natur. Er enghraifft, tra gallai hyn gynnwys elfen o beirianneg, mae'n debyg y bydd dealltwriaeth am ddatblygiad plant a chwarae ei hun yr un cyn bwysiced, neu yn bwysicach fyth.

Un agwedd werthfawr tuag at reoli risg mewn darpariaeth chwarae yw gwneud y risgiau mor amlwg â phosibl i'r plant. Mae hyn yn golygu dylunio gofodau ble mae'r risg o anaf yn codi o beryglon y gall plant sylwi arnynt yn hawdd (fel uchder), a ble mae peryglon na fyddai plant yn sylwi arnynt efallai (fel offer all fod yn fagl i'r pen) yn absennol. Mae hyn yn arbennig o ddefnyddiol mewn lleoliadau heb oruchwyliaeth, ble mae rhaid i ddyluniad yr offer a'r gofod cyffredinol wneud y mwyafrif o'r gwaith wrth gyflawni agwedd gytbwys tuag at risg.

## Casgliad

Nid yw diogelwch mewn darpariaeth chwarae'n absoliwt ac ni ellir delio ag e ar wahân. Darpariaeth chwarae sydd flaenaf a phwysicaf i blant, ac os nad yw'n gyffrous ac yn ddeniadol iddyn nhw, yna bydd yn fethiant, waeth pa mor 'ddiogel' y mae. Bydd angen i ddylunwyr, rheolwyr a darparwyr gyfaddawdu wrth gyflawni'r nodau hyn, fydd yn anghyson ar brydiau. Mae'r cyfaddawdau hyn yn fater o grebwyll, ac nid asesu mecanistig. Dylid seilio'r crebwyll hyn ar agweddau cymdeithasol ac ar farn arbenigol eang a hysbysir gan yr arfer gorau cyfredol. Dylent fod wedi eu gwreiddio'n gadarn mewn amcanion sy'n ymwneud â mwynhad a buddiannau i blant. A dylent gofio ystyried pryderon rhieni. Yn y bôn, dylai sail y crebwyll hwn gael ei egluro ym mholisïau'r darparwr chwarae fel y nodir ar bapur mewn dogfennau polisi. Dylai'r polisïau hyn, yn eu tro, gael eu deall a'u hymgorffori yn ymarferol gan yr holl randdeiliaid allweddol.

## Ôl-nodyn i argraffiad 2021

Mabwysiadodd a chyhoeddodd y Play Safety Forum (PSF) y datganiad sefyllfa uchod yn ffurfiol am y tro cyntaf yn 2002. Mae'r datganiad, gyda'i alwad am agwedd risg-budd, yn dal i fod yn hanfodol i waith PSF. Mae'n 'berchen', ar y cyd, gan y prif asiantaethau chwarae ym mhedair gwlad y DU. Mae polisi, arfer ac ysgolheictod wedi symud ymlaen yn sylweddol ers cyhoeddi'r datganiad gyntaf. Mae'r ôl-nodyn hwn yn crynhoi'r datblygiadau allweddol, er mwyn helpu darllenwyr cyfoes i ennill gwell dealltwriaeth o'i bwysigrwydd a'i ddylanwad.

Yn 2008, arianodd llywodraeth y DU gyhoeddi *Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: Canllaw Gweithredu*. Adeiladodd hyn ar ddatganiad sefyllfa'r PSF trwy ddisgrifio asesu risg-budd (ARB) yn fanwl. Amlinellodd hefyd y cyd-destun cyfreithiol, rheoleiddiol a pholisi.

Yn 2012, cyhoeddodd Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (rheoleiddiwr diogelwch y DU-gyfan) ei gefnogaeth i'r Canllaw hwn, ac i ARB, mewn Datganiad Lefel-Uchel sydd ar gael o wefan yr HSE. Mae'n nodi:

"Er mwyn helpu i reoli risg mewn modd synhwyrol a chymesur, mae'r sector chwarae wedi cynhyrchu'r cyhoeddiad *Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: Canllaw Gweithredu* sy'n darparu arweiniad ar reoli'r risgiau a geir mewn chwarae. Y dull a geir yn y canllaw hwn yw bod risgiau a buddiannau'n cael eu hystyried ochr-yn-ochr â'i gilydd mewn asesiad risg-budd. Mae hyn yn cynnwys asesiad o'r risgiau sydd, tra'n cofio ystyried buddiannau'r gweithgaredd, yn sicrhau bod unrhyw ragofalon yn ymarferol a chymesur ac yn adlewyrchu lefel y risg. Mae'r HSE yn cefnogi'r canllaw hwn, fel agwedd synhwyrol tuag at reoli risg"
Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch *Chwarae a Hamdden Plant – Hyrwyddo Agwedd Gytbwys* (2012).

Cyhoeddwyd argraffiad diwygiedig o Rheoli Risg mewn Darpariaeth Chwarae: Canllaw Gweithredu yn 2013. I ddilyn hwn, yn 2014, cyhoeddwyd ffurflen ARB fyrrach (ar ffurf ffurflen wag a ffurflen enghreifftiol).

Mae'r gweinyddiaethau datganoledig yng Nghymru, Yr Alban a Gogledd Iwerddon wedi ymgorffori agweddau risg budd mewn canllawiau perthnasol (Llywodraeth Cymru 2014, Care Inspectorate 2016, Adran Addysg Gogledd Iwerddon 2018). Y tu hwnt i'r DU, mae'r egwyddor o gydbwyso risgiau a buddiannau wedi ei hymgorffori yn safonau offer meysydd chwarae Ewrop (BSI Ltd, 2017). Mae wedi ei ymgorffori yn safonau offer chwarae Awstralia (Standards Australia, 2017). Ac mae'r Sefydliad Safoni Rhyngwladol (ISO) yn rhoi ystyriaeth ddwys i ARB fel agwedd a argymhellir tuag at reoli risgiau a buddiannau chwaraeon a gweithgareddau hamdden (David Ball, gohebiaeth bersonol).

Mae ymchwil ysgolheigaidd wedi ychwanegu at yr achos dros ARB. Dangosodd adolygiad academaidd systematig i 'chwarae llawn risg' (a ddiffinnir fel ffurfiau chwarae gwefreiddiol a chyffrous sy'n cynnwys risg o anaf) fuddiannau iechyd a datblygiadol amlwg. Daeth yw awduron i'r casgliad bod eu canfyddiadau'n "cefnogi hyrwyddo chwarae awyr agored llawn risg ar gyfer datblygiad plant iach" (Brussoni et al, 2015).

## Cyfeiriadau

Adran Addysg Gogledd Iwerddon (2018) *Play Matters: Play and Challenge Briefing Sheet*.

Ball D (2002) *Playgrounds – risks, benefits and choices*, Contract Research Report No. 426/2002, Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

Brussoni M et al (2015) 'What is the Relationship between Risky Outdoor Play and Health in Children? A Systematic Review.' *International Journal of Environmental Research and Public Health*, 12(6), 6423–6454.

BSI Standards Ltd (2017) *BS EN 1176-1:2017 Playground equipment and surfacing – General safety requirements and test methods.*

Care Inspectorate (2016) *My World Outdoors*.

Llywodraeth Cymru (2014) *Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae, Cyfarwyddyd Statudol.*

Standards Australia (2017) *AS 4685.0:2017 Playground equipment and surfacing – Part 0: Development, installation, inspection, maintenance and operation*.

Yr Adran Drafnidiaeth (2020) *Reported road casualties in Great Britain: 2019 annual report*.

Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (2012) *Chwarae a Hamdden Plant – Hyrwyddo Agwedd Gytbwys*.


## Aelodau sy'n sefydliadau chwarae cenedlaethol


- Chwarae Cymru
- Play England
- Play Scotland
- PlayBoard Northern Ireland

## Aelodau eraill

- Association of Play Industries
- Chartered Institute for the Management of Sport and Physical Activity
- Child Accident Prevention Trust
- Fields In Trust
- Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE)
- Kids
- Learning Through Landscapes
- Register of Play Inspectors International
- Royal Society for the Prevention of Accidents

## Ymgynghorwyr

- David Ball, Canolfan ar gyfer Dadansoddi Penderfyniadau a Rheoli Risg, Prifysgol Middlesex
- Tim Gill, ymchwilydd annibynnol
- Bernard Spiegal, Pennaeth, PLAYLINK





**Play Safety Forum**
www.playsafetyforum.org.uk

©PSF, 2021
Cyhoeddwyd gyntaf 2002. Ailargraffwyd 2008, 2021

Nid yw'r cyhoeddwyr yn gwneud unrhyw haeriad, yn hysbys nac yn ymhlyg, am gywirdeb neu gyflawnrwydd y wybodaeth yn y cyhoeddiad hwn, ac ni all dderbyn unrhyw gyfrifoldeb nac atebolrwydd cyfreithiol am unrhyw wallau neu hepgoriadau a wneir.

Am fwy o wybodaeth ar y Play Safety Forum, ewch i'r wefan ar www.playsafetyforum.org.uk